Sut wnaeth Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru weithio gyda'i gilydd ar yr adroddiad hwn?

Mark Campion (Estyn)

Roedd llawer o dir cyffredin rhwng ein hadroddiadau o ran y ffordd y mae'r consortia rhanbarthol yn cael eu harwain a'u llywodraethu, a sut y mae arian yn cael ei ddefnyddio. Felly gwnaed y gwaith maes ar y cyd. Yn Estyn, fe gymerais i'r awenau o ran cynllunio'r ymweliadau hynny, a chyn yr ymweliadau cafodd Swyddfa Archwilio Cymru lawer o sgyrsiau â swyddogion y llywodraeth. Fe wnaethom ni rannu'r dystiolaeth a oedd gennym ac yna aethom i ymweld â phob un o'r consortia a threulio tua wythnos ym mhob ardal yn gweithio gyda'n gilydd fel tîm - nifer o arolygwyr ynghyd â nifer o staff o Swyddfa Archwilio Cymru - yn rhannu ein syniadau, yn herio'n gilydd, yn rhannu ein tystiolaeth, yn cynnal cyfweliadau â staff o fewn y consortia ar y cyd. Felly fe weithiodd yn dda iawn wrth ddefnyddio arbenigeddau gwahanol bobl i fwydo i mewn i'n priod adroddiadau.